Wedi eich DALLU GAN DDATA - Deall Cynulleidfaoedd

Rhaglen Hyfforddi Gogledd Cymru – mis Hydref 2010

Wedi eich Dallu gan Ddata yw'r unig raglen hyfforddiant yn y DU wedi'i chynllunio'n benodol i ddiwallu anghenion sefydliadau celfyddydol a diwylliannol ar gyfer casglu, dadansoddi a dehongli data cynulleidfaoedd.

Plymio am Berlau – Casglu gwybodaeth werthfawr ynghylch Cynulleidfaoedd / Ymwelwyr

Mawrth 5ed Hydref 2010

"Fe'm cynorthwywyd gan y cwrs hwn i ganolbwyntio ar yr hyn sydd angen I ni ei wneud a'r hyn sy'n realistig i ni ei gyflawni. Fe'm cynorthwyodd hefyd i deimlo y medrwn ddod i benderfyniadau yn seiliedig ar y ffeithiau."

Hyfforddwr: Beth Aplin (Cyfarwyddwr, Partneriaeth Aplin)

Mae deall eich cynulleidfaoedd yn allweddol er mwyn cael llwyddiant wrth farchnata, ond beth yw barn eich cynulleidfaoedd a'ch ymwelwyr amdanoch chi? Bydd y gweithdy ymarferol hwn yn eich cynorthwyo I gael mewnwelediad, gwybodaeth a dealltwriaeth o'ch cwsmeriaid. O ddynodi pa wybodaeth sydd gennych eisoes i gomisynu a chynnal gwybodaeth, bydd y gweithdy hwn yn rhoi medrau ymarferol i chi fedru ennyn cefnogaeth eich cydweithwyr a chasglu gwybodaeth werthfawr ar gyfer eich sefydliad.

Ar gyfer pwy?

Unrhyw un sydd â diddordeb mewn casglu a defnyddio gwybodaeth ymwelwyr a chynulleidfaoedd megis theatrau, canolfannau celfyddydol, cwmniau cynhyrchu ac orielau

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

- Gwerth a phwysigrwydd casglu gwybodaeth cynulleidfaoedd / ymwelwyr
- Sut a pham i gasglu gwybodaeth
- Dynesiad ymarferol yn gyson â'r arfer gorau tuag at ymchwil
- Gwybodaeth ynghylch ffynonellau eraill o wybodaeth er mwyn cael darlun cyflawn o'r gynulleidfa

Lleoliad: Venue Cymru, Llandudno
Dyddiad: Mawrth 5ed Hydref 2010, 10am - 5pm (cofrestru 9.30am)
Cost: £50 + TAW ar gyfer unrhyw sefydliad wedi'i leoli yng Nghymru / £65 + TAW ar gyfer sefydliadau o'r tu allan i Gymru

Mannau Poeth a Rhwystrau Rhewllyd – Dadansoddi a chreu proffil o'ch cwsmeriaid

Iau 28ain Hydref 2010

"Am y tro cyntaf ers amser maith rwyf wedi dod o gwrs gyda syniadau ymarferol y medraf eu defnyddio o fewn fy sefydliad yn hytrach na damcaniaethau fyddai wedi aros yn nror fy nesg am flynyddoedd!"

Hyfforddwr: Roisin Jones (Ymgynghorydd)

Dynodi sut i feithrin cynulleidfaoedd, ymwelwyr a'r rhai sy'n cymryd rhan er mwyn adeiladu perthynas ragorach â nhw yw'r peth allweddol er mwyn sicrhau llwyddiant eich sefydliad yn y dyfodol.

Bydd y gweithdy hwn yn eich cynorthwyo i ddarganfod y cyfleoedd ar gyfer datblygu eich cynulleidfaoedd, ymwelwyr a'r rheini sy'n cymryd rhan. Bydd yn eich cyflwyno i nifer o dechnegau ymarferol ar gyfer dadansoddi a dehongli'r wybodaeth sydd gennych am gynulleidfaoedd/ymwelwyr a ffynonellau gwybodaeth eraill, gan eich galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus.

Ar gyfer pwy?

Swyddogion marchnata a datblygu cynulleidfaoedd sy'n gyfrifol am ddadansoddi a dehongli data cynulleidfaoedd ynteu ymwelwyr. Er mwyn manteisio o'r cwrs hwn dylech fod a gwybodaeth resymol ynghylch eich hamcanion marchnata ac eisoes â, ynteu'n bwriadu'n fuan gywain gwybodaeth am gynulleidfoaedd.

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

- Gwybodaeth a dealltwriaeth well o'r hyn mae eich cynulleidfa, ymwelwyr a chyfranogwyr yn dweud wrthych, â pha mor ddibynadwy yw'r wybodaeth
- Pa ffynonellau eraill all gynorthwyo gyda chynllunio marchnata
- Hyder fod casgliadau/argymhellion ar sail gwybodaeth

Lleoliad: Venue Cymru, Llandudno
Dyddiad: Iau 28ain Hydref 2010, 10am - 5pm (cofrestru 9.30am)
Cost: £50 + TAW ar gyfer unrhyw sefydliad wedi'i leoli yng Nghymru / £65 + TAW o'r tu allan i Gymru

Mae wedi eich Dallu gan Ddata yn cael ei ddarparu gan Cynulleidfaoedd Cymru trwy gymorth ariannol Cyngor Celfyddydau Cymru